# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-06-08)

**Dyddiad:11 Mawrth 2008**
**Amser : 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
### Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.
### Eitem 2.1: Offerynnau sy’n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

**SLC118 - Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 23 Chwefror 2008. Fe’i gosodwyd ar 26 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008.

- yn pennu, ar gyfer Cymru, ddangosyddion perfformiad y cyfeirir atynt wrth fesur perfformiad cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol wrth arfer eu swyddogaethau, o 1 Ebrill 2008.

Mae’r gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005.

**SLC119 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 25 Chwefror 2008. Fe’i gosodwyd ar 26 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 21 Mawrth 2008.

Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (Rhan 39), drwy ymestyn y dyddiad y mae’n rhaid symud y datblygiad ymaith ar ei gyfer i 21 Mawrth 2009; a’i gwneud yn ofynnol bod y datblygiad yn cael ei symud ymaith cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl y dyddiad estynedig.

**SLC120 - Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Diwygio) (Cymru) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 26 Chwefror 2008. Fe’u gosodwyd ar 27 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 19 Mawrth 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) 1997.

**SLC121 - Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 26 Chwefror 2008. " "Fe’u gosodwyd ar" "27 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 19 Mawrth 2008.

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Mân Dreuliau) 1997

**SLC123 - Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 28 Chwefror 2008. Fe’u gosodwyd ar 29 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 24 Mawrth 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Mêl (Cymru) 2003 (O.S. 2003/3044 (Cy.288).

**SLC124 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 28 Chwefror 2008. Fe’u gosodwyd ar 29 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008.

Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ailddeddfu, gydag addasiadau, Reoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) 2008. Mae’r addasiadau’n ymwneud â gwallau a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor dyddiedig 5 Chwefror 2008.

**SLC125 - Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 29 Chwefror 2008. Fe’u gosodwyd ar 3 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008 er mwyn cywiro gwall ynddynt a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor dyddiedig 19 Chwefror 2008.

### Eitem 3: Unrhyw fater arall
### Eitem 4: Dyddiad y cyfarfod nesaf